

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
12 Mawrth 2015, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 385

Presennol:	Huw Jones Carol Bell Aled Eirug Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens John Davies	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) eitemau 1-9 (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Dafydd Rhys Phil Williams Bethan C. Williams Carys Evans	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Pennaeth Dadansoddi) – eitemau 7-10
Ymddiheuriadau	Guto Harri Hugh Evans	(Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)

COFNODION

1. Croeso a Datganiadau diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 384 (a gynhaliwyd ar 12.02.15)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 384:

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth ar fater penodol yn ymwneud â mesur perfformiad rhaglenni.]

Partneriaethau

Nododd IHJ ei fod wedi ystyried sut i asesu ac adrodd ar berfformiad a llwyddiant partneriaethau S4C, a'i fod yn bwriadu asesu hyn gan ddefnyddio'r amcanion gweithredol blynyddol. Nodwyd fod yr Awdurdod yn awyddus i weld partneriaethau S4C yn darparu gwerth i S4C a'i phartneriaid, a bod sicrhau pwrpas i nifer cyfyngedig o bartneriaethau yn bwysicach na chreu ystod o

bartneriaethau.

Awgrymwyd y gellid cyflwyno gwybodaeth am bartneriaethau corfforaethol S4C ar wahân i bartneriaethau sy'n ymwneud yn agosach gyda'r gwasanaeth.

Penderfynwyd cyflwyno adroddiad, fel rhan o'r adroddiad ar yr Amcanion Gweithredol blynyddol yn asesu perfformiad prif bartneriaethau S4C.

iPlayer - Is-deitlau

[**Crynodeb** : Cafwyd trafodaeth am fanteision neu anfanteision is-deitlau agored]

4. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Nododd fod yr Ysgrifennydd Gwladol bellach wedi cadarnhau'n ffurfiol ailbenodiad Elan Closs Stephens yn aelod o'r Awdurdod hyd at Hydref 2018. Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau'r Awdurdod i ECS.

Ers ei gyfarfod gyda Rona Fairhead, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, roedd hi wedi traddodi darlith yn Rhydychen yn ymwneud â dyfodol yr Ymddiriedolaeth a llywodraethiant y BBC.

[**Crynodeb** : Cyflwynodd ECS esboniad o gyd-destun yr araith i'r Awdurdod.]

Cafwyd trafodaeth am berthnasedd araith RF i S4C a phenderfynwyd y dylai'r Cadeirydd barhau i drafod gyda Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth a swyddogion eraill er mwyn ceisio dod i ddealltwriaeth parthed strwythur cytundeb ac ariannu S4C yng nghyfnod y Siarter Brenhinol nesaf gyda'r BBC.

Derbyniad MG Alba

Mynychodd y Cadeirydd dderbyniad MG Alba yn Llundain yn ddiweddar. Esboniodd fod MG Alba yn awyddus i gael cynnydd sylweddol yn eu hincwm i £30m - £40m a'u bod yn cyflwyno darlun o lwyddiant y gwasanaeth a phwysigrwyd gwasanaethau ieithoedd brodorol i ddiwylliant y DU.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Roedd IHJ wedi cynnal sawl cyfarfod gyda chynrychiolwyr y sector gynhyrchu'n ddiweddar ac wedi cael cyfle i drafod nifer o elfennau'r bartneriaeth rhwng S4C a'r sector gan gynnwys marchnata, y strategaeth ddigidol a'r defnydd o ddata. Nododd fod y sector yn gefnogol i gydweithio er mwyn hyrwyddo rhaglenni S4C.

[**Crynodeb**: Trafodwyd y broses sefydlogi a'r awydd i ddarparu mwy o wybodaeth am ddostraniad y gyllideb cynnwys i'r Awdurdod.]

Y Clwb

[**Crynodeb** : Holwyd am ddarpariaeth elfennau slot Y Clwb.]

Strategaeth Ddigidol

Esboniodd IHJ fod gwaith datblygu yn parhau ar y Strategaeth Ddigidol arfaethedig, a'i fod yn gobeithio cyflwyno'r strategaeth i'r Awdurdod erbyn mis Mai fan bellaf. Nododd fod ymgynghorydd, Denise Lewis, yn parhau gyda'r gwaith o adolygu gweithgareddau marchnata a hyrwyddo S4C. Roedd yn debygol y byddai yna orgyffwrdd rhwng cwestiynau yn ymwneud â'r Strategaeth Ddigidol a rhai'n ymwneud â Marchnata. Byddai am ystyried y berthynas yma'n ofalus cyn cyflwyno ei argymhellion ynglŷn â Marchnata i'r Awdurdod yn fuan wedyn.

Rhyngwyneb Newydd Clic

Esboniwyd fod y gwaith o baratoi rhyngwyneb newydd ar gyfer gwasanaeth Clic, ynghyd ag Ap newydd, wedi ei gwblhau, ac y byddai'n cael ei lansio'n fuan. Roedd gwaith datblygu'n parhau er mwyn cyflwyno'r gallu i bersonoli'r wefan a chasglu data gan ddefnyddwyr, gyda swyddogion yn cydweithio gyda chwmnïau Havas a Model Citizen.

Adleoli a Chydleoli

[**Crynodeb:** Rhoddwyd diweddariad i'r Awdurdod ar brosiectau Adleoli a Chydleoli.]

Hawliau Rygbi

[**Crynodeb** : Trafodwyd her y gystadleuaeth ar gyfer Hawliau Rygbi.]

6. Rhaglenni'r mis aeth heibio

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.]

7. Cyflwyniad Tracio Delwedd gan Jon Priest, SPA Future Thinking

Croesawyd Jon Priest i'r cyfarfod.

[**Crynodeb** : Cyflwynodd JP prif ganfyddiadau'r ymchwil hwn a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2014.]

Diolchwyd i JP am ei gyflwyniad. Penderfynwyd dosbarthu copi o'r cyflwyniad i'r Aelodau er mwyn iddynt ei ystyried ymhellach, a nodwyd y byddai cyfle i drafod canfyddiadau'r ymchwil yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod.

8. Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 3 2014-15

Cyflwynodd IHJ a JFR adroddiad am waith yr Adran Gyfathrebu yn ystod Chwarter 3 2014-15. Cyfeiriwyd at brif flaenoriaethau ac ymgyrchoedd y cyfnod, gan esbonio prif elfennau'r gwaith cynllunio a hyrwyddo.

[**Crynodeb** : Disgrifiwyd y gweithgareddau hyrwyddo yn ymwneud â chyfres arbennig].

Hacio'n Holi

Cafwyd ymateb positif i'r digwyddiadau, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc drafod a dysgu mwy am arlwy S4C. Nodwyd fod yr holiaduron yn dangos fod 71% o'r bobl a ymatebodd yn dal i wylio cynnwys teledu'n fyw yn hytrach nac ar alw.

Roedd yn anodd asesu a oedd y cynllun wedi cynyddu defnydd o S4C ymysg pobl ifanc.

Esboniodd JFR fod cynllun peilot llysgenhadon mewn ysgolion wedi bod yn weithredol ers mis Tachwedd gyda disgyblion chweched dosbarth mewn wyth ysgol. Roedd yn anodd mesur llwyddiant y prosiect ar hyn o bryd. Nodwyd fod cynlluniau'n cael eu datblygu er mwyn ymestyn y prosiect ymhellach.

Defnydd o fas-data

Cyfeiriwyd at ddefnydd o fas-data ac e-byst er mwyn hyrwyddo darpariaeth S4C i gynulleidfa eang yn rheolaidd. Nododd JFR fod 'eflyers' yn cael eu danfon ar e-bost, nad oedd bas-data yn bodoli ar hyn o bryd, ond fod gwaith yn cael ei wneud i geisio sefydlu bas-data, a'r gobaith oedd y byddai wedi ei sefydlu erbyn diwedd y flwyddyn.

Eich Dewis Chi

Cyfeiriwyd at ymgyrch Eich Dewis Chi a gynhaliwyd yn ystod 2014 gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth o ddewisiadau gwyllo S4C o ran llwyfannau darlledu ac ar-lein. Roedd yr ymgyrch yn gyfle i ymweld â threfi ledled Cymru er mwyn cyflwyno gwybodaeth am Clic, defnydd S4C ar gyfryngau cymdeithasol, y wefan ac elfennau'r gwasanaeth.

Taith Nadolig Cyw

Cafwyd ymateb hynod positif i daith Nadolig Cyw, gyda'r holl docynnau ar gyfer nifer o sioeau wedi eu gwerthu o fewn oriau i fynd ar werth.

9. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli**

Cyflwynwyd adroddiad a chofnodion drafft o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli gan John Davies, Cadeirydd y Pwyllgor.

[**Crynodeb** : Trafodwyd rhai materion masnachol yn ymwneud â'r prosiect.]

Nodwyd fod Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cadarnhau eu bwriad i adeiladu ffordd gyswllt i gampws y brifysgol a fydd yn hwyluso mynediad i'r safle o'r briffordd.

Holwyd am y berthynas rhwng yr Egin a'r Ganolfan Gymraeg arfaethedig sydd i'w sefydlu yng ynghanol tref Caerfyrddin. Esboniwyd mai'r bwriad yw i PDDS ddefnyddio'r ganolfan newydd fel ffenestr siop ar gyfer y Gymraeg ac ar gyfer gweithgareddau ac adnoddau'r Egin.

10. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg gan PW, yn absenoldeb HHE. Esboniwyd mai prif waith cyfarfod diwethaf y pwyllgor

oedd ystyried llunio argymhelliad ar gyfer penodi archwilwyr mewnol i S4C.

[**Crynodeb** : Trafodwyd manylion y tendr ac argymhelliad y Pwyllgor.]

Cymeradwyodd yr Awdurdod ail-benodi PriceWaterhouseCoopers yn archwilwyr mewnol S4C yn unol â'r argymhelliad a gyflwynwyd, a phenderfynwyd hysbysu'r cwmni o amodau'r penodiad mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor.

11. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd AE adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gyfarfu ar 11 Mawrth 2015 ac esboniodd mai prif waith y Pwyllgor oedd ystyried perfformiad darpariaeth BBC CymruWales i S4C yn ystod 2014-15 a'r cynllun rhaglenni arfaethedig ar gyfer 2015-16 i'w gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC. Nodwyd y byddai asesiad o berfformiad darpariaeth y BBC yn ystod 2014-15 a'r Cynllun Rhaglenni ar gyfer 2015-16 a drafodwyd gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

12. **Darllediadau Etholiadol – Rhestr y Prif Bleidiau**

Esboniwyd fod dyletswydd ar Awdurdod S4C i benderfynu ar a chyhoeddi rhestr o'r brif bleidiau a chanllawiau ar gyfer darllediadau gwleidyddol ac etholiadol. Fel arfer, mae'r Awdurdod wedi dilyn penderfyniadau Ofcom (sy'n berthnasol ar gyfer y darlledwyr cyhoeddus masnachol) a'r BBC. Mae swyddogion S4C yn trafod materion yn ymwneud â darllediadau gwleidyddol ac etholiadol mewn grŵp sy'n cynnwys yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Esboniwyd fod Ofcom wedi bwriadu cyhoeddi eu penderfyniad wythnos ddiwethaf, ond nad yw wedi ei gyhoeddi hyd yma.

Penderfynwyd darparu argymhelliad parthed rhestr y prif bleidiau i ddibenion cynnig darllediadau etholiadol yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol i'r Aelodau ar e-bost pan fydd Ofcom wedi cyhoeddi eu rhestr o brif bleidiau.

13. **Rhaglen Waith 2015 – 16**

Cyflwynwyd drafft diweddaraf Rhaglen Waith 2015-16 i'r Aelodau er gwybodaeth.

Nodwyd fod y rhaglen waith yn cynnwys dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod a nifer o'r Pwyllgorau tan Orffennaf 2016 er mwyn galluogi'r Aelodau i gynllunio'u dyddiaduron ar gyfer cyfarfodydd S4C.

14. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 9 Ebrill 2015 yng Nghaerdydd